EUR(3)-07-10–p2: 4 May 2010

# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**Dyddiad:** 4 Mai 2010
**Amser:** 09:30 – 10:15 am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, y Senedd
**Teitl:** Adroddiad Prif Weinidog Cymru

## 1. PWRPAS

Darperir yr adroddiad hwn mewn ymateb i wahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor i roi diweddariad cyffredinol ynghylch y datblygiadau yn yr UE ac yn Rhyngwladol.

## 2. ARGYMHELLIAD

Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## 3. GWEITHGAREDDAU RHYNGWLADOL PRIF WEINIDOG CYMRU

- **14-15 Rhagfyr 2010 – Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, Copenhagen**

  Roeddwn i a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn bresennol yng Nghynhadledd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd yn Copenhagen. Roedd y Gynhadledd yn ddigwyddiad rhyngwladol uchel ei broffil ac roedd Arweinwyr o bob rhan o'r byd yn bresennol. Rhoddir adroddiad llawn am y Gynhadledd yn nes ymlaen yn fy adroddiad.

- **23 Chwefror 2010 – Cyfarfod gydag Ei Ardderchogrwydd Dr Sami Khiyami, Llysgennad Syria i'r DU**

  Hwn oedd ail ymweliad y Llysgennad Khiyami â Chymru, ond y tro cyntaf i ni gyfarfod â'n gilydd. Roedd ef yn awyddus i ganfod posibiliadau ar gyfer cydweithredu ym maes addysg, diwylliant a masnach. Yn ystod ei ymweliad cafodd gwrdd â swyddogion o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Busnes Rhyngwladol Cymru a Phrifysgol Caerdydd ac aeth i weld Merlin Medical Ltd yn Rhymni, sef un o'r prif gwmnïau sy'n allforio cyflenwadau meddygol i Syria.

- **25 Chwefror 2010 – Cyfarfod gydag Ei Ardderchogrwydd y Dr Oskaras Jusys, Llysgennad Gweriniaeth Lithiwania**

  Hwn oedd ymweliad cyntaf y Llysgennad â Chymru ac roedd yn awyddus i ganfod posibiliadau ar gyfer cydweithredu, yn enwedig ym maes diwylliant a gefeillio. Cynigiodd y Llysgennad y posibilrwydd o gynnal noswaith o gerddoriaeth o Lithiwania yng Nghaerdydd a thrafodwyd hefyd drefniant gefeillio posibl rhwng UWIC a phrifysgol o Lithiwania.

- **1 Mawrth 2010 – Seremoni Wobrwyo Cysylltiadau Cymunedol Cymru-Affrica**

  Yn rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, cyflwynais wobrau i gydnabod llwyddiant tri o'r 100+ prosiect cysylltiadau cymunedol rhwng Cymru ac Affrica. Roedd y cymunedau wedi cydweithio'n llwyddiannus ar brosiectau datblygu cilyddol ym meysydd iechyd, bywoliaeth, gweithgareddau ieuenctid a'r amgylchedd.

  Cefais gwrdd ag uwch gynrychiolydd o Raglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig a oedd yn canmol y cysylltiadau cymunedol Cymru-Affrica am eu gwaith partneriaeth rhyngwladol a'r effaith y maent wedi ei gael ar lawr gwlad wrth fynd i'r afael â thlodi. Fe gwrddais hefyd â nifer o gynrychiolwyr cymunedol o Affrica a oedd wedi dod draw i dderbyn eu gwobrau, o Kamuli (Uganda) sydd wedi gefeillio â Llanfyllin, Timbuktu (Mali) sydd wedi gefeillio â Gelli Gandryll a Mbale (Uganda) sydd wedi gefeillio â Phontypridd.

- **2 Mawrth 2010 – Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi i Fyfyrwyr Rhyngwladol yn y Senedd**

  Ar ddydd Gŵyl Dewi, cynhaliais dderbyniad i dros 150 o fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi dod o 20 gwlad wahanol i astudio yng Nghymru. Y nod oedd meithrin cysylltiadau ac annog y myfyrwyr i weithredu fel llysgenhadon anffurfiol i Gymru yn eu gwledydd eu hunain. Cynhaliwyd derbyniad tebyg gan y Dirprwy Brif Weinidog yn y Gogledd.

- **8 Mawrth 2010 – Cyfarfod â Dr Nicola Brewer, Uchel Gomisiynydd Prydain yn Ne Affrica**

  Roedd Dr Brewer yn y DU yn rhan o ymweliad swyddogol yr Arlywydd Jacob Zuma. Yn ystod ein cyfarfod, cynigiodd Dr Brewer gymorth yr Uchel Gomisiwn mewn nifer o feysydd. O Gasnewydd y mae Dr Brewer yn hanu; roedd ei thad, Trevor Brewer, yn chwarae rygbi dros Gymru yn y 1950au. Roedd hi felly wrth ei bodd pan welodd ei enw ar y wal enwogion yn Stadiwm y Mileniwm a bydd yn dychwelyd ym mis Mehefin, drwy wahoddiad gan Undeb Rygbi Cymru, i wylio'r gêm Cymru v De Affrica.

- **10 Mawrth 2010 – Cyfarfod gydag Ei Ardderchogrwydd Mr Lyubomir Kyuchukov, Llysgennad Gweriniaeth Bwlgaria**

Hwn oedd ymweliad cyntaf y Llysgennad â Chymru. Mae'r Llysgennad yn awyddus i sefydlu cysylltiadau rhwng ein gwledydd ym maes chwaraeon ac i ddysgu o brofiadau gwledydd eraill sy'n cael cyllid yr UE. Mae hefyd â diddordeb mewn addysg uwch, yn enwedig cyrsiau peirianneg, ac aeth i ymweld â Phrifysgol Caerdydd yn ystod ei amser yng Nghymru.

- **10 Mawrth 2010 – Cyfarfod gydag Ei Ardderchogrwydd Mr Bobby McDonagh, Llysgennad Iwerddon i'r DU**

  Roedd Bobby McDonagh yng Nghaerdydd i gynnal derbyniad dydd Gŵyl San Padrig, a fydd, meddai, yn ddigwyddiad blynyddol a drefnir gan y Llysgenhadaeth yn Llundain o hyn ymlaen. Cawsom gyfle sydyn i drafod pwysigrwydd y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ac effaith yr argyfwng ariannol presennol ar ei wlad ef.

- **30 Mawrth 2010 – Ymweliad â Tropical Forest Products Ltd yn Aberystwyth**

  Es ar ymweliad â safle ffatri Tropical Forest Ltd i ddysgu am eu prosesau a'u gwerthiant o fêl a chŵyr gwenyn o Affrica a Chymru. Hwn yw'r unig gwmni yn Ewrop sy'n mewnforio mêl a chŵyr gwenyn masnach deg o Affrica ac mae'n cyflenwi'r cynnyrch i nifer o archfarchnadoedd mawr a chwmnïau harddwch. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n gweithio ar brosiect i fewnforio mêl a chŵyr gwenyn o Gamerŵn, gyda chefnogaeth rhaglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- **14 Ebrill 2010 – Cyfarfod ag Ysgolorion Marshall**

  Cefais gyfle i gwrdd ag oddeutu 60 Ysgolor Marshall sy'n astudio yn y DU ar hyn o bryd. Atebais eu cwestiynau am Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at gyraeddiadau prifysgolion Cymru ac annog rhagor o ysgolorion i astudio yma - 2 Ysgolor Marshall sydd gennym yng Nghymru ar hyn o bryd. Cawsant sesiynau gyda Dr Emyr Jones Parry a swyddogion o dîm Materion Cyfansoddiadol Llywodraeth y Cynulliad. Aethant ar ymweliad â Phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe ac fe dreuliasant brynhawn yn Amgueddfa Werni Cymru, Sain Ffagan.

# 4. DATBLYGIADAU'R UE

## CYLLIDEB YR UE

Yr haf hwn, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gwneud argymhellion ar y newidiadau i gyllideb yr UE yn dilyn adolygiad eang. Daw hyn yng nghyd-destun y cyfyngder economaidd sy'n parhau a'r pwysau oddi wrth aelod-wladwriaethau i leihau cyllideb gyffredinol yr UE.

Bydd y gyllideb yn sail i strategaeth economaidd flaenllaw y Comisiwn, sef 'Ewrop 2020' ac, yn bwysicach byth, bydd yn pennu'r mecanweithiau ar gyfer dosbarthu cyllid yr UE.

Y llynedd, cafodd rhai cynigion eu datgelu'n answyddogol; roeddent yn awgrymu newidiadau radical i'r ffordd y trefnir y gyllideb, yn argymell dull gweithredu sectorol ac yn edrych ar y posibilrwydd o ail-wladoli'r ddau brif faes gwario, sef y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cronfeydd Strwythurol.

Fodd bynnag, yn sgîl yr adwaith negyddol i'r cynigion hynny a'r ymateb llugoer i'r rhaglen Ewrop 2020, a oedd ond yn cynnwys ychydig o gyfeiriadau at y PAC a'r cronfeydd strwythurol, mae awgrym nad oes fawr o awydd am newidiadau ysgubol.

Disgwylir i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynigion ym mis Gorffennaf. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn ogystal â sefydliadau'r UE, gan gymryd rhan lawn a chanolog yn y ddadl ynghylch dyfodol y gyllideb.

## POLISI CYDLYNIANT

Bydd y Polisi Cydlyniant, ar ei ffurf bresennol, yn rhedeg tan 2013 (a'r gwariant yn parhau tan ddiwedd 2015). Mae'r Comisiwn Ewropeaidd, yr Aelod-wladwriaethau ac eraill yn datblygu safbwyntiau ynghylch y modd y dylai'r Polisi Cydlyniant symud ymlaen ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae cysylltiad pendant rhwng y ddadl sy'n dod i'r amlwg a'r drafodaeth ehangach ynghylch Cyllideb yr UE, oherwydd honno fydd yn pennu faint o gyllid fydd ar gael a'r blaenoriaethau cysylltiedig.

Mae'r ddadl, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu'n llawn ati, yn digwydd o fewn cyd-destun macro-economaidd negyddol ac aelod-wladwriaethau sy'n dioddef pwysau ariannol difrifol.

Roedd ein hymateb diweddar i Bapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd, "Ewrop 2020" yn pwysleisio o'r newydd ein hymrwymiad i Bolisi Cydlyniant fel arf economaidd hollbwysig a ddylai, yn ein barn ni, fod yn gymwys o hyd i bob Aelod-wladwriaeth ar sail gyfartal gan ymateb i'r angen ar lefel ranbarthol.

## CYFARFOD Â'R COMISIYNYDD DROS BOLISI RHANBARTHOL, JOHANNES HAHN

Cefais gwrdd â'r Comisiynydd Hahn, y Comisiynydd Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol, yn ystod fy ymweliad cyntaf â Brwsel fel Prif Weinidog Cymru ar gyfer y digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi blynyddol. Fi oedd y cyntaf o blith Gweinidogion y DU i gyfarfod â'r Comisiynydd Hahn. Pwysleisiais fod Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r polisi cydlyniant ac yn awyddus i gynnal deialog ar

ei gwmpas a'i ffurf yn y dyfodol. Estynnais wahoddiad hefyd i'r Comisiynydd ymweld â Chymru i weld drosto'i hunan yr hyn a wnawn ac i ymgysylltu â phartneriaid.

## DATHLU DIWRNOD EWROP, SWYDDFA'R COMISIWN EWROPEAIDD, BAE CAERDYDD, Mai 5 2010

Rwyf wedi derbyn gwahoddiad gan Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd, i roi anerchiad mewn digwyddiad i ddathlu Diwrnod Ewrop ar 5 Mai. Caiff Diwrnod Ewrop ei ddathlu ar 9 Mai gan mai ar y dyddiad hwnnw yn 1950 y sefydlwyd yr Undeb Ewropeaidd.

# 5. <u>MATERION RHYNGWLADOL</u>

## CONFENSIWN FFRAMWAITH Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR NEWID HINSAWDD (UNFCCC), COPENHAGEN 10-16 Rhagfyr 2009

Roeddwn i a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn bresennol yng Nghynhadledd Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd yn Copenhagen rhwng 10 ac 16 Rhagfyr 2009. Uchafbwynt y Gynhadledd oedd bod 25 parti wedi llofnodi 'Cytundeb Copenhagen', sy'n pennu'r nod o gadw'r cynnydd yn nhymheredd y ddaear islaw 2°C. Mae Cytundeb Copenhagen yn datgan y bydd gwledydd datblygedig yn darparu bron i $30 biliwn mewn cymorth i wledydd sy'n datblygu ar gyfer 2010-12, gan gynyddu i $100 biliwn y flwyddyn erbyn 2020.

Roedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai'n bresennol yn y gynhadledd rhwng 10 ac 16 Rhagfyr i hyrwyddo swyddogaeth llywodraethau is-genedlaethol a rhanbarthol o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan fod Cymru'n gyd-gadeirydd ar Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy. Hefyd, manteisiodd y Gweinidog ar y gynhadledd i hyrwyddo dull gweithredu strategol a chynllun gweithredu Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; rhannu arferion da â rhanbarthau eraill; cyfleu materion ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd i bobl Cymru a cheisio gwella cysylltiadau Llywodraeth Cymru â rhwydweithiau rhyngwladol allweddol, llywodraethau rhanbarthol ac asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig. Aeth y Gweinidog i dros 30 o gyfarfodydd gan gynnwys cyfarfodydd dwyochrog gydag Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ynni a Newid Hinsawdd, Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd a nifer o Weinidogion ac Arweinwyr llywodraethau rhanbarthol ar draws y byd.

Es innau i lansiad Partneriaeth Newid Hinsawdd newydd gyda rhanbarth Mbale, Uganda. Sefydlwyd y bartneriaeth ar y cyd â Rhaglen Ddatblygu'r

Cenhedloedd Unedig a Llywodraeth y DU ac mae'n rhan o'r Rhaglen 'Cymru o Blaid Affrica'. Achubais ar y cyfle i gwrdd â nifer o Weinidogion ac Arweinwyr Llywodraethau Rhanbarthol o bob rhan o'r byd yn Copenhagen. Bûm hefyd yn trafod y camau a gymerir yng Nghymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'n swyddogaeth ni yn arwain Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy yn ystod Uwchgynhadledd Arweinwyr y Grŵp Hinsawdd.

## DYDD GŴYL DEWI 2010
## DIGWYDDIADAU RHYNGWLADOL

Mae dydd Gŵyl Dewi'n gyfle i Gymry ddathlu ein treftadaeth a'n traddodiadau ym mhob rhan o'r byd, a hwn yw'r achlysur mwyaf priodol i ddweud wrth weddill y byd am y Gymru fodern. Yn 2010, dathlodd Llywodraeth y Cynulliad ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo Cymru i gynulleidfa ryngwladol. Eleni, roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Derbyniad ym **Mrwsel**. Fi oedd yn cynnal y digwyddiad hwn, a oedd wedi'i gynllunio i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru a phwysleisio partneriaeth Cymru â'r Undeb Ewropeaidd. Cafodd y gwesteion flasu amrywiaeth o gynnyrch o Gymru a oedd wedi ennill gwobrau Gwir Flas, ac roedd tlws Cwpan Ryder yn cael ei arddangos. Yn ystod y noson, cafwyd cyfle i ddysgu rhagor am y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi €3.8 biliwn o dan raglenni 2007-2013 Cronfeydd Strwythurol Ewrop drwy amryw o brosiectau sydd o fudd i bobl, busnesau a chymunedau ar draws Cymru.

- Derbyniad yn **Delhi** i hyrwyddo Cymru yn y farchnad gynyddol bwysig hon mae'n flaenoriaeth gennym sefydlu cysylltiadau ag India. Roedd y derbyniad yn cyd-ddigwydd ag ymweliad llwyddiannus gan ddirprwyaeth Addysg Uwch o Gymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad.

- Derbyniad yn **Barcelona** i hyrwyddo'r berthynas rhwng Cymru a Chatalonia, yn cynnwys awdurdodau ac amrywiaeth eang o sefydliadau o Gatalonia. Roedd y rhain yn cynnwys y Generalitat, Bwrdd Croeso Catalonia, Ffederasiwn Rygbi Catalonia Siambr Fasnach Barcelona, *Catalonia Today* (papur newydd Saesneg ei iaith), Masnach a Buddsoddi y DU a Swyddfa Prif Gonswl Prydain;

- Dau dderbyniad, y naill yn Ne Cymru a'r llall yn y Gogledd, ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio ym Mhrifysgolion Cymru i ddathlu dydd Gŵyl Dewi a'u hannog i weithredu fel llysgenhadon anffurfiol dros Gymru ar ôl dychwelyd i'w gwledydd eu hunain. Fi wnaeth lywyddu digwyddiad y De a'r Dirprwy Brif Weinidog oedd y llywydd yn nerbyniad y Gogledd.

- Dathliad wythnos o hyd yn **UDA**. Roedd hyn yn ychwanegu at y gwaith parhaus i hyrwyddo Cymru yng Ngogledd America. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

  - Lansio Gwobr Flynyddol newydd er cof am Dylan Thomas yn Swyddfa Prif Gonswl Prydain, Boston
  - Dathlu bywyd a gwaith Karl Jenkins ym mhreswylfa Prif Gonswl Prydain yn Efrog Newydd
  - Gwledd Gŵyl Dewi flynyddol Cymdeithas Dewis Sant Efrog Newydd, yn y Yale Club, Efrog Newydd
  - "It's Alec Templeton Time!" yn Llyfrgell Gyhoeddus y Celfyddydau Perfformio, Canolfan Lincoln, Efrog Newydd
  - Meistri Cerddoriaeth Cymru, yn Neuadd Gyngerdd Carnegie
  - Dathliad o Gymru ar ddydd Gŵyl Dewi yn Llyfrgell ac Amgueddfa Morgan, Efrog Newydd
  - Arddangosfa o Lawysgrifau Dylan Thomas a the prynhawn Cymreig yn Llyfrgell ac Amgueddfa Morgan, Efrog Newydd
  - Taith gerdded yn olrhain trywydd Dylan Thomas o amgylch Greenwich Village

Unwaith eto eleni, cafwyd llawer iawn o sylw yn y cyfryngau i Gymru, Wythnos Cymru a'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn Boston ac Efrog Newydd gan greu cysylltiadau newydd i lawer o'r sefydliadau ac unigolion o Gymru a gymerodd ran yn y dathliadau.

Mae Wythnos Cymru wedi cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r sefydliadau o Gymru a'r Unol Daleithiau a gymerodd ran. Ym mhlith y rhai y bu Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â nhw ar Wythnos Cymru UDA 2010, mae Prif Gonsyliaid Prydain yn Boston ac Efrog Newydd; Karl Jenkins; Cymdeithas Dewi Sant Efrog Newydd; *Distinguished Concerts International*; Gwobr Dylan Thomas; Gŵyl Gregynog; Llyfrgell Gyhoeddus Efrog Newydd i'r Celfyddydau Perfformio; *Only Men Aloud!*; Llyfrgell ac Amgueddfa Morgan, Efrog Newydd.

- Roedd Wythnos Cymru **Chongqing** 2010 yn amlygu'r cynnydd a wnaed yn y berthynas rhwng Cymru a Chongqing ac yn edrych ar gyfleoedd pellach i gydweithio ym meysydd carbon isel, ymchwil ynni adnewyddadwy, gweithgareddau masnachol, addysg, y celfyddydau a diwylliant.

  - Hyfforddiant gan Ganolfan Mileniwm Cymru i ddatblygu sgiliau ymarferwyr yn Ne-orllewin Tsieina. Mae Wythnos Cymru wedi esgor ar bartneriaethau rhwng Theatr Pobl Ifanc Sichuan a Chwmni Opera Tsieina a thrafodaethau gyda'r Swyddfa Diwylliant ynglŷn â threfnu leoliadau gwaith i fagu sgiliau technegol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru;

  - Lansio Canolfan Ymchwil Carbon Isel gyntaf Tsieina. Hwyluswyd hyn gan y berthynas â Sefydliad Ymchwil Carbon Isel Cymru. Cafwyd gryn

sylw i hyn yn y cyfryngau yn Ne-orllewin Tsieina.

- Technoleg ac Arloesedd – trafodaethau pellach gyda CAST (Cymdeithas Gwyddoniaeth a Thechnoleg Chongqing) sydd ar fin agor swyddfa yng Nghanolfan Technium Abertawe.

- Cenhadaeth Fasnach – bu hon yn llwyddiannus iawn, gan esgor ar nifer o gyfleoedd i'w datblygu ymhellach.

- Dirprwyaeth Addysg Uwch – mae dros 50 o gysylltiadau rhwng prifysgolion Cymru a Chongqing bellach.

- Dirprwyaeth Addysg Uwch – disgwylir i ddirprwyaeth o Chongqing ddod ar ymweliad i Gymru ym mis Mehefin i ddatblygu ymhellach y cysylltiadau llwyddiannus a wnaed;

- Derbyniad gan y Llywodraeth a lansio www.wales.cn (y fersiwn Mandarin o Wales.com) – sydd wedi denu llawer o gyhoeddusrwydd ledled De-orllewin Tsieina.

• Roedd y gweithgarwch hyrwyddo rhyngwladol arall yn cynnwys y canlynol:

  - Dosbarthwyd fy neges Dydd Gŵyl Dewi drwy swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Cyngor Prydeinig yn ogystal â'r wefan wales.com. Cynhyrchwyd fersiwn fideo o fy neges eleni.

  - Cynhyrchwyd pecyn o ddeunyddiau hyrwyddo gan yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol gyda deunyddiau hyrwyddo, ac fe'i anfonwyd i swyddfeydd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad er mwyn helpu i ddathlu dydd Gŵyl Dewi mewn gwledydd tramor. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r pecyn, ac fe ysgogodd ddathliadau dydd Gŵyl Dewi mewn amryw o'r lleoliadau tramor.

  - Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed y llynedd, creodd yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol dudalennau arbennig dydd Gŵyl Dewi ar y wefan wales.com. Roedd hon yn ffynhonnell ar-lein o wybodaeth a deunyddiau i hyrwyddo Cymru, trefnu gweithgareddau a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ledled y byd.

  - Mae'r Is-adran hefyd wedi datblygu e-gerdyn rhyngweithiol mewn 5 iaith i anfon cyfarchion dydd Gŵyl Dewi at gysylltiadau rhyngwladol a thynnu sylw pobl at wales.com.

**Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**